


Coronafeirws




Ym mis Mawrth 2020 roedd rhaid i bobl yng Nghymru aros adre oherwydd Coronafeirws.

Roedd hynny'n golygu bod bywyd yn newid i lawer ohonon ni




Ac roedd yn golygu bod llawer o newid yn ffyrdd plant o ddysgu, chwarae, a chael mwy o help pan fydd angen hefyd.






Ein hadroddiad




Mae'r adroddiad yma'n dweud beth rydyn ni wedi'i wneud ers mis Mawrth 2020 i helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru.



Mae hefyd yn sôn am sut mae plant a phobl ifanc wedi cael eu helpu gan eraill fel Llywodraeth Cymru, ac allen nhw fod wedi gwneud mwy.





Ein prif nodau

4

Pan oedden ni'n gwybod roedd rhaid i bawb aros adre roedden ni eisiau gwneud pedwar prif beth:




1. Roeddwn ni am sicrhau bod gennych chi wybodaeth a help gallech chi drystio



2. Roeddwn ni am sicrhau bod gennych chi'r gefnogaeth oedd angen arnoch



3. Roeddwn ni am sicrhau roedd pobl yn gwranddo arnoch chi



4. Roeddwn ni am helpu Llywodraeth Cymru i wrando arnoch chi a beth oedd angen arnoch






Beth am ein gwaith arall?

Rydyn ni dal ati i wneud yr holl bethau roedden ni'n gwneud cyn y cyfnod clo




Gwnaethon ni sicrhau roeddech chi'n gallu ffonio ni os oedd broblem.

Rhoddon ni gyngor i blant, pobl ifanc ac oedolion.








Gwnaethon ni wrando arnoch chi

Cwrddon ni a grwpiau ar-lein i drafod problemau.



Rydym wedi dweud wrth y Llywodraeth beth rydyn ni'n credu pa reolau a chyfreithiau dylai newid i wneud y gorau dros y plant.



	<p>Beth wnaeth Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn dda?</p>
	<p>Fe wnaeth Llywodraeth Cymru yn siŵr bod plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael eu bwydo yn ystod gwyliau'r Pasg a'r haf. Rydyn ni eisiau gweld hynny'n dal i ddigwydd ar hyd y flwyddyn.</p>
	<p>Fe wnaeth pobl sy'n gweithio gyda phlant a sefydliadau fel yr Urdd, Chwarae Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru feddwl am ffyrdd newydd o helpu plant i chwarae a chadw'n actif.</p>
	<p>Cafodd bron i holl blant cyswllt gyda'u hysgol pan oeddent adre.</p>
	<p>Arhosodd timau gwasanaethau cymdeithasol ar agor a newid sut roedden nhw'n gweithio i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dal i fedru siarad â phlant a theuluoedd.</p>




	<p>Beth allai fod wedi cael ei wneud yn well?</p>
	<p>Mae Llywodraeth Cymru stopio rhai darnau pwysig o waith roedden nhw'n gwneud i helpu plant sydd fel arfer yn dysgu gartre, ac yn mynd i ysgolion preifat.</p>
	<p>Wnaeth Llywodraeth Cymru ddim dweud wrth blant nac ysgolion beth ddylen nhw ddisgwyl ei weld yn digwydd o ran dysgu ar-lein, a chafodd plant ar draws Cymru brofiadau gwahanol iawn. Roedd llawer o blant yn cael trafferth deall y gwaith oedd yn cael ei anfon atyn nhw.</p>
	<p>Roedd llawer o bobl ifanc yn anhapus gyda'r canlyniadau derbynion nhw ym mis Awst a oedd yn teimlo'n annheg. penderfynodd y Gweinidog Addysg rhoi'r graddau i fyfyrwyr TGAU a Lefel A roedd athrawon yn meddwl bydden nhw'n derbyn pe bai nhw'n sefyll arholiad.</p>
	<p>Gallai peth o'r wybodaeth gafodd ei rhoi i blant a phobl ifanc fod yn fwy clir.</p>







Beth fyddwn ni'n wneud nesaf?



Byddwn ni'n dal i wrando ar plant a dweud wrth y Llywodraeth ac eraill beth mae angen iddyn nhw neud i helpu plant



Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau sy'n dangos sut mae'r cyfnod aros adre wedi effeithio ar grwpiau gwahanol o blant.



Byddwn yn edrych dros pam mae Llywodraeth Cymru wedi oedi gwaith pwysig roeddent yn gwneud i helpu plant oedd yn dysgu adref, neu mewn ysgolion preifat.

